

# Newyddion gan Ddiogelwch y Ffyrdd Cymru

"Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd?" Chwefror 2014 — Rhifyn 28

## Yn y Rhifyn hwn:

- Canlyniadau Ymgyrch Yfed a Gyrru y Nadolig
- Canolbwyntio ar Yrwyrr Ifanc
  - Gwefan yn Rhoi Cyngor i Berthnasau Gyrwyr Hŷn
  - Ymchwil Telemateg cyn Cyhoeddi Papur Gwyrdd ar Yrwyrr Ifanc
- Miliwn o Gardiau CRASH
- Taclo Problemau Parcio Ysgol ym Mhont-y-pŵl
- Arsyllfa Diogelwch ar y Ffyrdd
- Gyrru'n Anghyfreithlon ym Mhrydain
  - Camerâu Niwl
  - Uwch-Gynhadledd y DU ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd
  - Ffyrdd y gall Ceir eu Darllen

## Canlyniadau Ymgyrch Yfed a Gyrru y Nadolig

**Daliwyd dros 460 o yrwyrr yng Nghymru dros y terfyn ar yfed a gyrru yn ystod Ymgyrch Yfed a Gyrru Cymru dros y Nadolig.**

Cafodd 35,255 o yrwyrr ledled Cymru brawf anadl rhwng 1af Rhagfyr 2013 a 1af Ionawr 2014.

Cynhaliodd Heddlu'r Gogledd 18,159 o brofion anadl ac yr oedd 107 ohonynt yn bositif. Yn Nyfed Powys cynhaliodd cyfanswm o 11,281 o brofion anadl ac yr oedd 161 yn bositif. Yng Ngwent rhoddodd swyddogion brawf i 2,470 o yrwyrr, ac yr oedd 39 ohonynt yn bositif. Rhoddodd Heddlu'r De 3,345 o brofion a chael 158 o ganlyniadau positif.

Wrth siarad ar ran heddluoedd Cymru, meddai'r Dirprwy Brif Gwnstabl Gareth Pritchard: "Er bod digon o rybudd wedi cael ei roi cyn ac yn ystod yr ymgyrch, penderfynodd 465 o yrwyrr yng Nghymru anwybyddu ein rhybuddion drwy beryglu eu bywydau eu hunain a rhai pobl eraill drwy dorri'r gyfraith. Mae hyn yn hynod o siomedig.

"Mae hefyd yn rhyfeddol fod rhai pobl bron i bedair gwaith dros y terfyn cyfreithiol. Mae'n amlwg fod yr unigolion yma wedi diystyru eu diogelwch personol a diogelwch gyrwyr eraill.

"Nid yn unig y mae yfed a gyrru neu gymryd cyffuriau a gyrru yn erbyn y gyfraith, mae'n rhywbeth hollol annerbyniol.

Ychwanegodd: "Fodd bynnag, nid problem dros y Nadolig yn unig yw yfed a gyrru. Mae'n difetha bywydau drwy'r flwyddyn. Mae'r rhai sy'n parhau i yfed a gyrru yn dewis gwneud hynny ar hyd y flwyddyn ac felly rydym angen cymorth y cyhoedd 365 diwrnod y flwyddyn i dynnu'r bobl yma oddi ar ffyrdd Cymru."

Os oes gennych chi wybodaeth am unrhyw un sy'n yfed a gyrru neu'n gyrru dan ddylanwad cyffuriau, ffoniwch Heddlu Gogledd Cymru ar 101 neu Crimestoppers yn ddiennw ar 0800 555 111. Mewn argyfwng ffoniwch 999 bob amser.

## Canolbwyntio ar Yrwyrr Ifanc

**Cynhadledd undydd fydd hon ac fe'i trefnir gan Road Safety GB mewn partneriaeth â FirstCar. Bydd hi'n ystyried y sefyllfa bresennol a'r gobeithion o ran cwtdogi ar anafiadau i yrwyrr ifanc, a'u marwolaethau, yn y dyfodol.**

[Claciwch yma](#) i gael gwybod rhagor am yr agenda, y themâu, y siaradwyr ac ati.

## Gwefan Newydd yn Rhoi Cyngor i Berthnasau Gyrwyr Hŷn



**Mae gwefan newydd wedi'i sefydlu i annog perthnasau gyrwyr hŷn i wneud eu hymchwil cyn cael sgysiau – sgysiau sensitif, o bosibl – ynghylch rhoi'r gorau i yrru.**

GEM Motoring Assist sydd wedi creu'r wefan [stillsafetodrive.org.uk](https://stillsafetodrive.org.uk) ac ynddi cewch chi gyfres o fideos sy'n rhoi sylw i bynciau ynghylch heneiddio, aros yn ddiogel, ac ymaddasu i newid mewn symudedd.

Dywed yr Athro Andrew Parkes, prif wyddonydd y TRL ac un o brif arbenigwyr y DU ar ymddygiad gyrwyr, y gall gyrwyr hŷn deimlo'n amddiffynnol ynglŷn â'u gyrru ac unrhyw feirniadaeth ohono.

Meddai'r Athro Parkes: "Yn ddiweddar, roeddwn i mewn car yn cael fy ngyrru gan fy nhad am y tro cyntaf am 10 mlynedd. Sylwais fod ei ffordd o yrru wedi newid: roedd yn gyrru'n llawer cynt, yn llawer mwy ymosodol ac yn barotach i fynnu cael ei ffordd.

"Fy ymateb i oedd mynegi fy syndod ac yna geisio gwneud jôc o'r peth. Mae'n fwy na thebyg i hynny wneud iddo deimlo hyd yn oed yn fwy amddiffynnol ynglŷn â'i yrru."

Dywed yr Athro Parkes fod angen cynllunio'n daclus cyn sôn wrth berthynas hŷn am yrru – yn enwedig os anelir at gael yr unigolyn i roi'r gorau i yrru.

Meddai: "O edrych yn ôl, ddylwn i ddim fod wedi sôn wrth fy nhad ar y pryd. Byddwn i wedi bod yn gallach o lawer petawn i wedi troi'n ôl at y pwnc ar ôl i mi feddwl am rai syniadau synhwyrol i'w helpu, yn hytrach na gwneud dim ond mynegi syndod a phryder ynglŷn â'i yrru."

## Yr Adran Drafnidiaeth am weld Ymchwil Telemateg cyn Cyhoeddi Papur Gwyrdd ar Yrwy Ifanc

**Yn ôl POST Online, sy'n gyhoeddiad ac yn wefan i'r diwydiant yswiriant, mae'r Adran Drafnidiaeth wedi penderfynu peidio â chyhoeddi papur gwyrdd ar ddiogelwch gyrwyr ifanc tan iddi weld rhagor o ymchwil i'r ffordd y gall telemateg wella ymddygiad gyrru.**

Yn ystod dadl yn Westminster Hall a gynhaliwyd gan Robert Goodwill, yr is-ysgrifennydd gwladol dros gludiant, y cafwyd gwybod bod ar yr Adran eisiau gwneud ymchwil i fanteision diogelwch cyflwyno telemateg (drwy'r TRL).

Cynrychiolwyd Cymdeithas Yswirwyr Prydain (yr ABI), Cymdeithas Brocerwyr Yswiriant Prydain (Biba) a sawl darparwr telemateg, gan gynnwys [Ingenie](#), Marmalade, Insure the Box a Carrot Insurance, yn y digwyddiad.

Dywed erthygl y Post i "delemateg dra-arglwyddiaethu ar yr agenda", ond cafodd argymhelliad yr ABI i raddio trwyddedau i yrwy lai o sylw. Mae'r erthygl hefyd yn awgrymu nad yw'r llywodraeth bellach yn ymchwilio i'r dewis o orfodi cyrffiw nos ar yrwy ifanc. [Darllenwch ragor](#)

## Miliwn o Gardiau CRASH

**Mae'r miliynfed Cerdyn CRASH wedi'i gynhyrchu ac yr oedd ar gael i feicwyr modur yn Sioe Beiciau Modur Llundain yn ystod y mis.**

Cydweithio gan grwpiau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw, Sweden, y Ffindir, România, Portiwgal ac UDA fu'n gyfrifol am ddsbarthu'r nifer rhyfeddol hwnnw o Gardiau. Mae'r cardiau'n rhoi rhybuddion meddygol a chyngor i feicwyr modur yn rhad ac am ddim.

Enillodd [Cerdyn CRASH Wobr Ryngwladol y Tywysog Michael am Ddiogelwch ar y Ffyrdd yn 2011](#). Bydd beicwyr modur yn rhoi'r cerdyn yn eu helmedau i helpu staff meddygol. Os caiff y beiciwr ei anafu mewn gwrthdrawiad ar y ffordd, bydd y manylion y mae ef/hi wedi'u rhoi ar y cerdyn yn wybodaeth hanfodol i griwiau ambiwlans. Gall hynny arbed amser gwerthfawr a hwyluso'r driniaeth, yn enwedig os bydd y beiciwr yn anymwybodol neu'n methu dweud na chyfleu dim.

Crëwyd Cerdyn CRASH gan bwyllgor o'r [Ambulance Motorcycle Club](#), grŵp o Barafeddygon profiadol a staff ambiwlans sy'n frwd ynghylch beiciau modur. I gael gwybod rhagor am Gardiau CRASH yng Nghymru, ffoniwch RoSPA ar 02920 250600

**Ysgol Gynradd Stryd Siôr ym Mhont-y-pŵl yw'r ysgol ddiweddaraf yn Nhorfaen i redeg cynllun conau gwyrdd i ymladd problem y modurwyr sy'n parcio'n anystyriol.**

Gosodir conau traffig gwyrdd bob ochr i'r ffordd i rieni a disgyblion allu gweld yn glir i bob cyfeiriad a sicrhau y gall y plant groesi'n ddiogel. Meddai'r aelod gweithredol dros wasanaethau cymdogaeth, y Cynghorydd John Cunningham: "Mae'r cynllun conau gwyrdd yn cynnig ateb syml i'r hyn a all fod yn broblem beryglus. Rwy'n siŵr y bydd hyn yn arwain at lai o broblemau parcio a thagfeydd o amgylch yr ysgol yn ystod y cyfnodau prysuraf. Y peth pwysicaf yw cludo plant yn ddiogel i'r ysgol ac yn ôl. Pan fydd gormod o gerbydau yn ceisio parcio y tu allan i'r ysgol yr un pryd, gall fod yn beryglus iawn i'r disgyblion."



Meddai'r Brifathrawes Julie Wood: "Rydym yn gobeithio'n fawr y bydd y cynllun yn helpu ein hymdrechion cyson fel ysgol i sicrhau bod ein disgyblion yn cyrraedd a gadael ein hysgol yn ddiogel. Teimlwn fod hon yn fenter hynod bwysig a mawr obeithiwn y bydd hi'n llwyddiannus iawn."

### Arsyllfa Diogelwch ar y Ffyrdd

**Ers lansio'r Arsyllfa Diogelwch ar y Ffyrdd ym mis Mawrth 2013, mae hi wedi cael dros 55,000 o ymweliadau gan bron i 20,000 o ymwelwyr unigol.**

Sefydlwyd yr [Arsyllfa Diogelwch ar y Ffyrdd](#) er mwyn i'r sawl sy'n gweithio yn y maes, a'r cyhoedd, allu cael gafael yn hwylus ar ymchwil annibynnol i ddiogelwch ar y ffyrdd. Ynddi, cewch chi grynodedau ac adolygiadau ar ymchwil i amrywiaeth mawr o broblemau'r maes, ynghyd â chysylltau i'r adroddiadau ymchwil gwreiddiol.



**Cewch chi'r wybodaeth yn yr Arsyllfa Diogelwch ar y Ffyrdd yn rhad ac am ddim, a does dim angen i chi gofrestru i'w defnyddio.**

Rheolir yr Arsyllfa gan Fwrdd Rhaglen sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith rhanddeiliaid diogelwch ar y ffyrdd, gan gynnwys yr Adran Drafnidiaeth, RoSPA, RoadSafe, PACTS, Sefydliad yr RAC, Road Safety GB, CIHT, ACPO, ADEPT a'r CFOA.

Bydd Bwrdd y Rhaglen yn comisiynu amrywiaeth mawr o ymchwilwyr ac arbenigwyr ar ddiogelwch ar y ffyrdd i adolygu ymchwil. Y bwriad yw i'r adolygiadau fod yn rhydd rhag gogwydd ac yn annibynnol ar bolisiâu'r Llywodraeth. Maent yn crynhoi'r dystiolaeth orau sydd ar gael yn hwylus i'r gymuned ymchwil ac fe ddelir i adolygu'r maes wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg.

Mae'r Arsyllfa'n gweithio ar y cyd â'r [Ganolfan Wybodaeth am Ddiogelwch ar y Ffyrdd](#), llyfrgell ar-lein gynhwysfawr o wybodaeth ac adnoddau am y maes.



**Mae adroddiad yn y Daily Telegraph yn awgrymu y gall miloedd o fodurwyr tramor fod yn gyrru'n anghyfreithlon ym Mhrydain ac yn llwyddo i osgoi talu'r dreth car, dirwyon a gwiriadau diogelwch.**

Mae perchnogion ceir sydd â phlatiau rhif tramor i fod i gofrestru eu ceir gyda'r DVLA cyn pen chwe mis i sicrhau bod eu ceir wedi'u trethu a'u hyswiro ac yn ddiogel i'w gyrru. Ond does yr un modurwr wedi'i erlyn am fethu â gwneud hynny dros y flwyddyn ddiwethaf er gwaetha'r rhybuddion cyson bod miloedd yn diystyru'r gyfraith.

Dywedodd Gweinidogion nad oedd ganddynt syniad faint o bobl sy'n gyrru'n anghyfreithlon, ond mae adroddiadau'n awgrymu y gall fod cynifer â 15,000 o fodurwyr yn manteisio ar y sefyllfa. Daeth y ffigur i olau dydd wedi i Andrew Percy, yr AS dros Brigg a Goole, ofyn faint o bobl a gawsai eu herlyn am fethu â chofrestru car tramor yn ystod y 12 mis blaenorol.

Atebodd Stephen Hammond, y gweinidog trafnidiaeth, oedd nad oedd y DVLA "yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi dwyn ymlaen unrhyw erlyniad yn erbyn perchnogion ceir a gofrestrwyd dramor ond sydd wedi aros yn y DU y tu hwnt i'r cyfnod eithrio o chwe mis". Cododd ei gyfaddefiad ofnau y gall fod miloedd o fodurwyr yn osgoi talu treth ar eu ceir.

Mae methu â chofrestru ceir hefyd yn ei gwneud hi'n anos i awdurdodau roi dirwyon parcio ac i wirio bod cerbydau'n cael prawf MoT blynyddol. Cyfaddefodd y Llywodraeth y llynedd nad oedd hi wedi erlyn ond pedwar o bobl am yr un drosedd yn ystod y 12 mis cyn hynny.

Dywedodd Mr Percy wrth y Daily Telegraph iddo gael gwybod am y broblem ar ôl i'w etholwyr ddweud bod mewnfudwyr o ddwyrain Ewrop, a oedd yn byw'n lleol, yn dal i yrru â phlatiau tramor ar eu ceir ymhell ar ôl iddynt gyrraedd y DU.

"Gallai fod yn filoedd ar filoedd neu'n ddim ond dyrnaid," meddai. "Mae'n amlwg nad ydyn nhw'n talu treth car yn y DU. Mae'n amlwg bod problem yma hefyd ynghylch yswiriant ceir ac osgoi profion MoT. Gall fod yn broblem fach neu'n un enfawr ond does neb yn gwybod, ac mae hynny'n od iawn. Gallwn ni fod â cherbydau tramor yn teithio ar hyd ein ffyrdd, heb gyfrannu ar eu cost, ac o bosibl yn torri'r gyfraith, ond does neb yn ei gorfodi hi."

Meddai llefarydd o'r DVLA: "Rydyn ni'n gweithio gyda Llu Ffiniau'r DU a'r heddlu i ymchwilio i ffyrdd o ddefnyddio data i weld pa gerbydau sydd wedi'u cofrestru dramor ond wedi bod yn y DU am chwe mis a rhagor."

Meddai Mr Hammond: "Rydyn ni'n benderfynol o daclo'r broblem hon."

## **Camerâu Niwl**

**Gallai camera sy'n gallu gweld drwy sylweddau di-draidd helpu modurwyr i lywio'u ffordd yn ddiogel ar hyd ffyrdd niwlog.**

Mae peirianwyr yn Labordy'r Cyfryngau yn Sefydliad Technoleg Massachusetts wedi datblygu camera a all fesur pellteroedd, hyd yn oed drwy ddeunydd tryleu.

Mae'r camera'n defnyddio pylsiau o olau sy'n para nano-eiliad ac yna'n mesur y shiftt sy'n digwydd pan gaiff y rheiny eu bwrw'n ôl. Bydd hynny'n creu darlun tri-dimensiwn sy'n fodd i'r camera ddweud y gwahaniaeth rhwng golau a gaiff ei wasgaru gan ddiferion dŵr – mewn niwl neu law trwm, er enghraifft – a gwrthrychau solid fel bymper car.

Dywed y peirianwyr sydd wedi creu'r ddyfais y gellid ei defnyddio i helpu modurwyr i weld y ffordd a cherbydau eraill drwy niwl trwchus. [Darllenwch yr erthygl](#)



Bydd cynhadledd sydd wedi'i threfnu gan **PACTS** yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol mewn dadl agored ac ymarferol ynghylch dyfodol polisïau ac ymarfer diogelwch ar y ffyrdd yn y DU, yr heriau cyffredin a gwahanol ledled y DU, a'r amrywiaeth yn y polisïau diogelwch ar y ffyrdd sydd wedi datblygu yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Dyma rai o'r pynciau allweddol:

- Polisïau ar ddiogelwch ar y ffyrdd yn y DU: persbectifau'r Llywodraeth
- Peirianeg, addysgu a gorfodi – y dirwedd wedi 2015
- O'r Ewropeaidd i'r lleol: Cyflawni ar bob lefel
- Sut mae gwneud diogelwch ar y ffyrdd yn flaenoriaeth i'r llywodraeth nesaf



Bydd y llywodraethau a'r gweinyddiaethau datganoledig yn amlinellu'r gwersi a ddysgwyd a'r heriau at y dyfodol. Bydd Seneddwyr, ACPO, y Motorcycle Action Group, Grwpiau Moduro ac eraill, ynghyd ag arbenigwyr annibynnol, yn trafod yr heriau yn eu sectorau hwy.

Wrth i etholiadau seneddol yn Ewrop a phob rhan o'r DU agosáu, mae'r cynlluniau a'r rhaglenni cyfredol ynghylch diogelwch ar y ffyrdd yn tynnu at eu terfyn neu'n dirwyn i ben; mae'r Adran Drafnidiaeth, er enghraifft, eisoes wedi cyhoeddi'r diweddariad olaf ar gynnydd ei chynllun gweithredu ar ddiogelwch ar y ffyrdd.

[I archebu lle a chael gwybod rhagor, cliciwch yma.](#)

### Ffyrdd y gall Ceir eu Darllen

**Gwnaiff ceir heddiw fwy i ddiogelu bywyd nag a wnâi cerbydau gwta 10 mlynedd yn ôl, ac erbyn 2025 bydd hanner y ceir ar y ffordd yn Ewrop yn gallu "darllen" arwyddion a marciau. Mae'r angen am arwyddion a marciau cyson dda i yrwyr yn bod ers i hanes moduro gychwyn.**

Gan na fydd cerbydau a gyrwyr yn ymdopi'n dda os yw marciau ac arwyddion ar y ffyrdd wedi'u treulio'n llwyr, yn anghyson neu'n ddryslyd, bydd angen cael gwared ar y ffontiau, y lliwiau, y meintiau a'r siapiau gwahanol sydd i'w gweld hyd yn oed yn yr arwyddion diogelwch mwyaf sylfaenol a rhyngwladol-safonol fel "stop" ac "ildiwch". Bydd hynny'n golygu safoni lled y llinellau gwyn a faint o oleuni y maent yn ei adlewyrchu – a sicrhau marcio ymylon y priffyrdd.

Mae'r adroddiad "[Roads that cars can read](#)", a gyhoeddwyd gan EuroRAP ac Euro NCAP, yn waith darllen pwysig i'r rhai sy'n cynnal ffyrdd sydd o bwys economaidd yn Ewrop. Dywed fod y rhan fwyaf o'r teithio – a'r marwolaethau ar y ffyrdd – yn digwydd ar y ffyrdd hynny er nad ydynt ond yn 10% o'r rhwydwaith.

Bellach, mae gwaith cynnal-a-chadw annigonol a gwahaniaethau mewn marciau ffyrdd ac arwyddion traffig yn rhwystr mawr rhag defnyddio technoleg yn effeithiol mewn cerbydau i adnabod arwyddion traffig a rhybuddion gadael lôn. [Darllenwch ragor](#)

### Cysylltwch â'r Cynullydd

Gweler Diogelwch y Ffyrdd Cymru ar [Facebook](#) a [Twitter](#)

Cynullydd: Michelle Harrington, RoSPA [mharrington@rospa.com](mailto:mharrington@rospa.com)  
02920 250 600



Nid yw RoSPA yn gyfrifol am gynnwys gwefannau allanol.